O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 757 (Cy. 132)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r Gogledd o Fethesda, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiad) 2025

Gwnaed	*26 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*30 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2) ac 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r Gogledd o Fethesda, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiad) 2025 a daw i rym ar 30 Mehefin 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dileu cyfyngiad

3. Bydd y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 135 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Thal Gae hyd at bwynt 19 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Thyddyn Iolyn, i'r gogledd o Fethesda, Gwynedd yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru